



Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

Astudiaethau Achos Camau / Camau Case Study

Enw a Lleoliad: Rachel Harris Rheolwr Overton Playcentre

Astudiaeth achos wedi'i chwblhau gan Siobhan Chambers o Blynyddoedd Cynnar Cymru ym mis Rhagfyr 2020

Cyflwynwyd staff yn Overton Playcentre i brosiect Camau gan Flynyddoedd Cynnar Cymru. Cwblhaodd sawl aelod o staff y gwiriwr (gwiriwr lefel Cymraeg) yn ôl ym mis Rhagfyr 2018. Cwblhaodd 8 aelod o staff y cwrs mynediad Cymraeg Camau ac yna aeth 4 o'r rhain ymlaen i gwblhau'r lefel sylfaen. Er bod mwy o ddiddordeb yn y lefel sylfaen yn anffodus fe darodd COVID19 ac oherwydd amser ac ymrwymadau eraill roedd rhai yn ei chael yn ormod yn ystod yr amser ansicr.

Mwynhaodd y staff fynychu'r cyrsiau. Cynhaliwyd y cwrs yn y noswaith gyda'r mwyafrif yn dod yn syth o'r gwaith roedd lluniaeth ar gael bob wythnos a gwnaed i bawb deimlo bod croeso iddynt mewn awyrgylch hamddenol. Mae Rachel yn canmol y tiwtor a gynhaliodd y cwrs bob wythnos a dywedodd hefyd fod ei dull o gyflwyno'r cwrs yn gwneud i'r cyfranogwyr deimlo'n gartrefol, ymlacio ac nad oeddent yn teimlo cywilydd o gwbl pe baent yn cael yr ynganiad yn anghywir gan eu bod i gyd yn annog ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd yn help bod y cwrs yn cael ei gynnal yn Overton Playcentre gan fod mwyafrif y mynychwyr yn gweithio yn y lleoliad gyda dim ond 2 gyfranogwr yn dod o leoliad arall.

Gydag awyrgylch mor hamddenol a thiwtor hamddenol agos-atoch, roedd Rachel a'i thîm yn Overton Playcentre yn teimlo'n gyffyrddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol y cwrs phobl eraill.

Esboniodd Rachel fod cwblhau cwrs Camau a defnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliad wedi helpu gyda cheisiadau grant diweddar gydag awdurdodau lleol ac mai eu nod terfynol yw gallu darparu'r Cynnig Gweithredol. Yn ddiweddar, mae Rachel wedi cwblhau ffurflen hunanasesu Cymraeg ac yn gweithio tuag at nodau tymor byr.

Dyweddodd Rachel fod cefnogaeth, anogaeth a dull gweithredu Blynyddoedd Cynnar Cymru a'u tiwtor yn gwneud y broses o ddysgu'r Gymraeg yn un bleserus. Gwnaethom drafod y cyrsiau ar-lein yn y dyfodol lle mae Rachel yn frwd iawn i gymryd rhan.

Mae staff yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg trwy'r lleoliad gyda'r plant wrth annog ei gilydd. Fe wnaethant hefyd fewngofnodi i wefan gwaith Cymru ac maent wedi gwneud eu ffordd trwy amrywiaeth o gyrsiau byr ar-lein. Cadw'r Gymraeg yn ffres yn eu meddyliau.

Sylwadau gan Siobhan - Blynyddoedd Cynnar Cymru: Mae Rachel a staff yn Overton Playcentre wedi gweithio'n galed i gynnal a gwella eu gwybodaeth o'r Gymraeg. Maen nhw'n dîm agos sy'n gwneud gwaith gwych yn annog ei gilydd. Er gwaethaf brwydrau a chyfyngiadau gyda COVID19 mae Rachel yn frwdfrydig i barhau i weithio gyda mi fy hun a chymryd rhan gyda hyfforddiant pellach.